

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

Y BIL CARCHARDAI A LLYSOEDD

Rôl yr Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth mewn perthynas â chartrefi diogel i blant, a datganiadau o wirionedd

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS29 yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y gellir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.
2. Cyflwynwyd y Bil Carchardai a Llysoedd (y "Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 23 Chwefror 2017. Gellir gweld y Bil yn:

[Dogfennau'r Bil — y Bil Carchardai a Llysoedd 2016-17 \(Saesneg yn unig\) — Senedd y DU](#)

Amcanion polisi

3. Yr amcanion polisi sydd wedi'u datgan gan Lywodraeth y DU yw diwygio carchardai a llysoedd trwy osod fframwaith newydd a system glir o atebolrwydd yn y system carchardai, cryfhau diogelwch, gwella effeithlonrwydd a gwasanaethau ar gyfer defnyddwyr mewn llysoedd a thribiwnlysoedd, a diwygio'r broses hawliadau ar gyfer mân anafiadau atchwipio yn sgil damweiniau traffig ffyrdd.

Crynodeb o'r Bil

4. Noddir y Bil gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.
5. Mae darpariaethau allweddol y Bil yn cynnwys:
 - Diwygio diben a threfniadau craffu carchardai a galluogi ymatebion diogelwch newydd i gyffuriau a ffonau symudol yn y ddalfa;
 - Diwygio'r llysoedd a thribiwnlysoedd troseddol, sifil a theulu a;
 - Moderneiddio recriwtio ac adleoli barnwrol; a
 - Newid y broses hawliadau ar gyfer poen, dioddef a cholli amwynder sy'n deillio o anafiadau atchwipio.

Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

6. Ceisir cydsyniad y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer cymalau 4-6 a chymal 54 ac Atodlen 13 o'r Bil. Mae rhifau'r cymalau'n cyfeirio at argraffu'r Bil fel y'i cyflwynwyd.

Cymalau 4-6 – yr Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth; ymchwiliadau i farwolaethau mewn cartrefi diogel i blant

7. Mae Cymal 4 yn creu swydd statudol yr Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth ac yn nodi swyddogaethau'r Ombwdsmon sy'n cynnwys cynnal ymchwiliad i farwolaeth plentyn sy'n cael ei gadw mewn cartref diogel i blant yng Nghymru neu sy'n preswyllo yno neu blentyn nad yw bellach yn cael ei gadw yn y cartref neu'n preswyllo yno. Mae cymal 5 yn nodi'r marwolaethau hynny sydd o fewn cylch gwaith yr Ombwdsmon ac yn cynnwys marwolaeth plentyn a oedd, adeg ei farwolaeth, yn cael ei gadw mewn cartref diogel i blant yng Nghymru neu'n preswyllo yno. Mae cymal 6 yn rhoi pwerau disgresiwn i'r Ombwdsmon ymchwilio i farwolaeth person nad yw bellach yn cael ei gadw mewn cartref diogel i blant yng Nghymru neu'n preswyllo yno lle mae gan yr Ombwdsmon le i gredu y gallai'r farwolaeth fod yn gysylltiedig mewn rhyw ffordd â phreswylid neu gadwad y plentyn hwnnw yno.

Cymal 54 ac Atodlen 13 – Troseddau traffig ac ansawdd aer: defnyddio datganiadau o wirionedd

8. Mae Cymal 54 yn rhoi effaith i Atodlen 13 i'r Bil. Mae'r Atodlen yn nodi gwelliannau i'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n disodli'r datganiadau statudol (datganiad cyfreithiol a roddir ac a lofnodir ym mhresenoldeb person a awdurdodwyd gan y llys) â datganiadau o wirionedd (datganiad ysgrifenedig, wedi'i lofnodi, a anfonir at y llys) mewn rhai troseddau traffig ac ansawdd aer. Bydd disodli datganiadau statudol â datganiadau o wirionedd yn moderneiddio'r gweithdrefnau presennol sy'n anghyson ac sydd wedi dyddio â phrosesau digidol, tra'n cadw cosbau cryf lle ceir bod datganiad o wirionedd yn ffug. Bydd y newidiadau hyn yn lleihau'r angen i bobl fynychu'r llys. Bydd hyn nid yn unig o fudd i'r llys wrth dorri i lawr ar amser llys ond hefyd i ddefnyddwyr sy'n teithio i adeiladau llys, yn enwedig yn ngoleuni cau llysoedd yn ddiweddar.
9. Mae Atodlen 13 o'r Bil yn diwygio paragraff 5 o Atodlen 11 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 ("Deddf 1995"). Roedd Gweinidogion Cymru yn defnyddio'r pwerau a roddwyd yn adran 87 ac Atodlen 11 o Ddeddf 1995 i wneud Rheoliadau Traffig Ffyrdd (Allyriadau Cerbydau) (Cosb Benodedig) (Cymru) 2003/300 ("y Rheoliadau") drwy gyfrwng Offeryn Statudol. Mae'r Rheoliadau'n gwneud sawl cyfeiriad at ddatganiadau statudol. Bydd y gwelliant a wnaed i Atodlen 11 o Ddeddf 1995 gan y Bil yn caniatáu i'r Rheoliadau gael eu diwygio i wneud datganiadau o wirionedd yn hytrach na datganiadau statudol yn ofynnol yn unol â bwriad polisi'r diwygiadau a wneir gan y Bil yn ehangach mewn perthynas â throseddau ansawdd aer. Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi cadarnhau y bydd gwneud y diwygiadau canlyniadol angenrheidiol i'r Rheoliadau yn Gymraeg a Saesneg drwy is-ddeddfwriaeth.

10. Mae angen cydsyniad ar gyfer y darpariaethau hyn am eu bod yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn ymwneud â lles cymdeithasol gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol a diogelu'r amgylchedd. Yn arbennig mae'n ymwneud ag amddiffyn, llesiant a gofal plant o dan baragraff 15 o Ran 1, Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a datblygu economaidd, sy'n cynnwys gwelliannau i'r amgylchedd o dan bennawd 4 a diogelu'r amgylchedd o dan bennawd 6 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn i Gymru yn y Bil Carchardai a Llysoedd

Cymalau 4-6

11. Cafodd swydd yr Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth (PPO) ei chreu gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, ac mae ei gylch gwaith ar hyn o bryd yn cael ei bennu gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae'n cwmpasu Cymru a Lloegr ac mae'n anstatudol. Mae'r Bil yn rhoi swyddogaethau'r PPO ar sylfaen statudol. Ehangwyd ei gylch gwaith yn ddiweddar i gynnwys ymchwiliadau i unrhyw farwolaethau mewn cartrefi diogel i blant yng Nghymru, i ddileu'r anghysondeb lle byddai'r PPO yn ymchwilio i farwolaeth plentyn o Gymru mewn cartref diogel i blant yn Lloegr, ond lle na fyddai hyn yn wir yn achos marwolaeth plentyn o Gymru a leolir mewn cartref tebyg yng Nghymru (ac anghysondeb tebyg ynghylch plant o Loegr a leolir yng Nghymru yn hytrach na Lloegr). Ysgrifennodd y Gweinidog Gwasanaethau Cymdeithasol at yr Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Gyfiawnder ym mis Ionawr, yn gofyn i gylch gwaith y PPO gael ei ehangu yn y modd hwn, ac ar 26 Ionawr fe osododd gerbron y Cynulliad Reoliadau Cartrefi Plant (Cymru) (Diwygio) 2017 i hwyluso unrhyw ymchwiliadau o'r fath yn yr unig gartref diogel i blant yng Nghymru.

12. Bydd cynnwys y cymalau ynghylch cartrefi diogel i blant yng Nghymru yn y Bil hwn yn sicrhau bod cylch gwaith y PPO yn parhau i gwmpasu marwolaethau mewn lleoliadau diogel yng Nghymru, ac yn sicrhau cysondeb yn y trefniadau ar gyfer ymchwiliadau i blant o Gymru a Lloegr fel ei gilydd, p'un a ydynt wedi'u lleoli yng Nghymru neu yn Lloegr.

13. Mae cartrefi diogel i blant yng Nghymru wedi'u heithrio rhag y darpariaethau hynny yn y Bil sy'n gosod gofynion ar reolwr cofrestredig y cartref. Gan fod cartrefi diogel i blant yn cael eu cofrestru a'u harolygu gan AGGCC, a'u llywodraethu gan reoliadau a wneir gan Weinyddion Cymru, bernir ei bod yn fwy priodol i'r gofynion ar y rheolwr cofrestredig / unigolyn cyfrifol gael eu gwneud o dan reoliadau Cymru.

Cymal 54 ac Atodlen 13

14. Mae'r darpariaethau hyn yn gwneud mân newidiadau i brosesau gweinyddol yn y Llys Sirol. Maent yn rhan o becyn eang o fesurau sy'n anelu at wella effeithlonrwydd a gwasanaethau i ddefnyddwyr yn llysoedd

a thriwlynlysoedd Cymru a Lloegr. Mae'n bwysig bwrw ymlaen â'r newidiadau hyn ar sail Cymru a Lloegr er mwyn i'r pecyn o ddiwygiadau gweinyddol gael ei roi ar waith yn gydlynol ar yr un pryd yng Nghymru a Lloegr.

Goblygiadau ariannol

15. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol i Lywodraeth Cymru os bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cydsynio â'r darpariaethau sy'n gymwys i Gymru. Er hynny, gallai fod costau dilynol yn y dyfodol yn achos marwolaeth plentyn sy'n derbyn gofal mewn cartref diogel i blant yng Nghymru. Byddai'r costau hyn yn ymwneud ag ymchwilio i farwolaeth y plentyn. Byddai'r union gost yn dibynnu ar amgylchiadau'r farwolaeth a nifer y bobl i'w cyf-weld, ynghyd â theithio a chynhaliaeth. Hyd yn hyn un farwolaeth yn unig sydd wedi bod mewn cartref diogel i blant yng Nghymru a Lloegr, a hynny ar ddiwedd y 1990au.

Casgliad

16. Ym marn Llywodraeth Cymru mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn sef Bil y DU gan mai hwn yw'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf ymarferol a chymesur i alluogi'r darpariaethau hyn i fod yn gymwys mewn perthynas â Chymru. Maent yn gwneud mân newidiadau i brosesau'r llys sy'n rhan o becyn eang o ddiwygiadau i Lysoedd a Thriwlynlysoedd Cymru a Lloegr. Maent hefyd yn rhoi ymchwiliadau gan yr Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth i farwolaeth plentyn mewn cartref diogel i blant yng Nghymru, ar sylfaen statudol. Bydd darpariaethau manwl sy'n gosod gofynion ar reolwr cofrestredig y cartref plant, i helpu i hwyluso unrhyw ymchwiliad o'r fath, yn parhau i gael eu gwneud mewn Rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan y ddeddfwriaeth gwasanaethau cymdeithasol.

Carl Sargeant AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
Mawrth 2017